Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Abersoch
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 7EA

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Abersoch ym mhentref Abersoch ger Pwllheli, yn awdurdod lleol Gwynedd, ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac wyth oed. Trosglwydda'r disgyblion i ysgol gynradd gyfagos ar ôl Blwyddyn 3. Mae 21 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 6 oed meithrin rhan amser. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu ac fe addysgir Saesneg yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Daw 39% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Nid oes yr un disgybl o gefndir ethnig lleiafrifol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae oddeutu 13% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 29% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2010. Penodwyd y pennaeth â gofal i'w swydd ym mis Medi 2016.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Abersoch yn 2016-2017 yw £7,182. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,404 a'r lleiafswm yw £3,089. Mae Ysgol Abersoch yn yr ail safle o'r 93 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu
- medrau llafar Cymraeg mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol
- llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol yn eu medrau darllen
- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddatrys problemau
- athrawon yn darparu ystod o brofiadau ysgogol sydd o ddiddordeb i'r disgyblion
- athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn ystyried eu hanghenion, eu diddordebau a'u syniadau
- ansawdd yr addysgu yn gadarn

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth â gofal yn dechrau gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer datblygiad yr ysgol
- gan y pennaeth nodau clir i gynnwys yr holl randdeiliaid ym mhrosesau datblygu'r ysgol
- aelodau'r corff llywodraethol yn cael effaith lwyddiannus ar ddatblygiad yr ysgol
- gan yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a'r mwyafrif o feysydd sydd angen eu gwella.
- y cynllun datblygu yn fanwl ac yn nodi camau gweithredu perthnasol a meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n briodol ar ddarpariaeth a deilliannau

## Argymhellion

A1 Gwella cyfradd presenoldeb disgyblion

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth i ddiwallu holl egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn

A3 Defnyddio llai o daflenni gwaith a darparu tasgau mwy heriol a phenagored i alluogi disgyblion i ymestyn eu gwaith, yn arbennig wrth ysgrifennu

A4 Datblygu ymhellach rolau arweinyddol arweinwyr ar bob lefel

A5 Ymateb i'r pryderon iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae eu medrau sylfaenol wrth ddechrau'r ysgol yn is na'r disgwyl, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i'r mwyafrif ohonynt. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Yn gyffredinol, mae llawer yn gwneud cynnydd da ar draws yr ysgol yn eu medrau darllen a rhifedd.

Mae medrau llafar Cymraeg mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Maent yn cyfathrebu'n eglur gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddegau. Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn gwrando'n astud ar sylwadau ei gilydd ac yn ymateb yn briodol. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf eirfa bynciol dda ac maent yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau gan ddisgrifio ymweliad diweddar i brofi gweithgareddau ymarferol y Pasg yng Ngholeg y Bala.

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau darllen. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn mwynhau trafod llyfrau ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'u deunyddiau darllen. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn gwneud defnydd effeithiol o'u gwybodaeth ffonolegol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd Blwyddyn 3 mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith gan amrywio goslef y llais i gynnal diddordeb y gwrandawyr yn effeithiol. Mae disgyblion mwy abl yn trafod nodweddion llyfrau yn effeithiol ac yn disgrifio cymeriadau mewn stori yn fedrus.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd boddhaol yn eu medrau ysgrifennu. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio medrau llythrennedd yn bwrpasol mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y meysydd dysgu gan ddefnyddio strwythur brawddegau syml ac atalnodi sylfaenol. Erbyn i'r disgyblion gyrraedd Blwyddyn 3, maent yn dechrau ysgrifennu'n estynedig gan ddechrau defnyddio ychydig o ansoddeiriau, er enghraifft wrth ailadrodd chwedl Rhys a Meinir yn dilyn ymweliad i Nant Gwrtheyrn. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio medrau ysgrifennu estynedig Cymraeg y disgyblion ar draws yr ysgol gan amharu ar eu cynnydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn caffael medrau ysgrifenedig Saesneg yn llwyddiannus. Maent yn creu darnau estynedig mewn ystod eang o ffurfiau drwy wneud defnydd pwrpasol o eirfa ac amrywio brawddegau. Mae bron pob un disgybl yn ysgrifennu i'r un safon ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith ag y maent mewn gwersi iaith, er enghraifft wrth ysgrifennu am wrthrychau trydan a golau a gosod y testun mewn diagram Venn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos dealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddatrys problemau bob dydd, er enghraifft wrth gostio tocynnau trên er mwyn teithio gyda'r teulu dros Ogledd Cymru. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu a lluosi syml yn hyderus.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 3, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp a thrin data gyda chywirdeb cynyddol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn effeithiol, er enghraifft wrth ddadansoddi data yn seiliedig ar eu hoff greaduriaid glan môr. Mae llawer o'r disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn defnyddio amrywiaeth dda o fedrau cyfrifo yn y pen a chyfrifo ysgrifenedig mewn gwersi mathemateg yn gywir. Mae medrau meddwl llawer yn datblygu'n gadarn, er enghraifft wrth ystyried ffeithiau am fadau achub a theithwyr ar y Titanic.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol mewn meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio pecynnau arlunio yn effeithiol i greu cyflwyniadau o'u gwaith, er enghraifft i greu lluniau o gychod glan môr. Gall y rhan fwyaf raglennu teganau neu ddelwedd sgrin yn llwyddiannus. Erbyn diwedd Blwyddyn 3, mae gan bron bob disgybl afael gadarn ar fedrau TGCh gan gyflwyno gwybodaeth drwy gyfuno llun a thestun ar boster o lefydd arbennig dros Gymru. Maent yn ymchwilio gwybodaeth yn effeithiol, er enghraifft wrth gasglu ffeithiau am y Titanic. Mae disgyblion hŷn yn dechrau dangos dealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Gan fod nifer y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn fechan iawn, nid yw'n briodol i adrodd ar y tueddiadau yn nata perfformiad yr ysgol heb adnabod unigolion.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i fynd os oes rhywbeth yn eu poeni. Maent yn dangos gofal a pharch at ei gilydd, ac yn cynnig cymorth yn ddigymell i'w cyd-ddisgyblion, mewn gwersi neu mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol. Trwy fod yn ymwybodol o'u targedau, mae llawer yn gwybod pa mor dda y maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wella.

Yn gyffredinol, mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta, yfed a chadw'n iach. Maent yn cymryd rhan frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol o fewn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol. Mae disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn mwynhau ymgymryd â chyfrifoldebau, er enghraifft wrth ffonio ysgol gyfagos er mwyn archebu cinio yn ddyddiol. Mae cyngor yr ysgol, sef y 'Sgwad Syniadau', yn dechrau datblygu eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau. Maent yn dechrau gweithredu yn yr ysgol ac yn trefnu gweithgareddau i godi arian i'r rhai mewn angen. Maent yn deall eu cyfrifoldeb i gefnogi eraill wrth godi arian er budd elusennau fel Taith gerdded Mike Peters a Phlant mewn Angen. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu synnwyr da o gyfrifoldeb cymdeithasol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau ysgogol sydd o ddiddordeb i'r disgyblion. Maent wedi addasu eu cynlluniau i sicrhau darpariaeth gytbwys ac addas ar gyfer pob disgybl gan gynnig ystod ddiddorol o weithgareddau iddynt. Er bod cynlluniau gwaith yr ysgol yn seiliedig ar gyflwyno egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, nid ydynt bob amser cael eu gweithredu'n gyflawn i gyfoethogi'r ddarpariaeth yn effeithiol nac wrth gyflwyno tasgau ysgrifennu annibynnol yn gydlynol.

Mae'r cynllunio yn y mwyafrif o feysydd yn sicrhau bod gweithgareddau yn adeiladu ar ddysgu blaenorol y dysgwyr ac yn ystyried eu hanghenion, eu diddordebau a'u syniadau. Mae'r ysgol yn diwallu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd trwy eu cynlluniau gwaith thematig yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid oes digon o her na chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymestyn eu gwaith yn annibynnol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn sylfaenol a heb eu sefydlu'n ddigon cadarn i ddisgyblion adeiladu eu medrau'n ddigon systematig ar draws yr ysgol.

Mae prosiectau ysgol-gyfan, ynghyd ag ymweliadau gan ymwelwyr, yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn manteisio ar y cyfleoedd llwyddiannus hyn i ennyn eu diddordeb a'u mwynhad, er enghraifft wrth gynllunio a threfnu priodas ffug gymunedol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn defnyddio ystod o'u medrau yn effeithiol mewn sawl maes ar draws y cwricwlwm.

Mae ffocws cryf ar ddatblygu disgyblion i fod yn rhugl yn y Gymraeg ac mae'r holl staff yn manteisio ar lawer o gyfleoedd i gyfoethogi a gwella ansawdd eu hiaith lafar. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddysgu am yr ardal leol a diwylliant Cymru. Mae enghreifftiau da o hyn yn cynnwys astudio bywyd a gwaith Cymry enwog fel T. Llew Jones a Dewi Sant. Mae dealltwriaeth y disgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru yn datblygu'n dda.

Caiff agweddau o ddinasyddiaeth fyd eang eu hyrwyddo'n llwyddiannus drwy noddi bachgen o Nepal, er enghraifft. Mae'r disgyblion yn derbyn a danfon gohebiaeth iddo ac yn casglu arian ar gyfer ei gymuned. Mae cysylltiadau â mudiadau eraill fel Cymorth Cristnogol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion am bobl sy'n llai ffodus na nhw ar draws y byd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cynaliadwyedd gyda chyngor ysgol sy'n annog ailgylchu fel blaenoriaeth. Maent yn casglu dillad i'w hailgylchu oddi wrth y gymuned ar dir yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn cynllunio gwersi ysgogol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith agos yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion. Mae'r athrawon yn modelu iaith yn glir, sy'n cyfrannu at ddatblygiad iaith lafar y disgyblion yn effeithiol. Mae cyfraniad staff cynorthwyol yn cefnogi'r dysgu ar draws yr ysgol yn

dda. Mae disgyblion yn elwa o'r ffaith bod pob aelod o staff yn eu hadnabod yn dda iawn ac mae'r staff yn eu trin yn sensitif ac yn gefnogol. Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn rheoli ymddygiad yn fedrus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac maent yn barod i ddysgu. Mae'r athrawon yn cysylltu gwersi â dysgu blaenorol yn effeithiol, gan ddarparu gweithgareddau buddiol sy'n bodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Er hyn, ar adegau, nid yw'r gweithgareddau bob tro yn ymateb yn llawn i sicrhau her briodol i'r holl ddisgyblion ac mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio safon ysgrifennu estynedig lleiafrif y disgyblion.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn fuddiol ac yn rhoi sylwadau adeiladol iddynt ar sut i wella. Yn yr enghreifftiau gorau o farcio, mae sylwadau yn annog disgyblion i ymateb ac yn arwain at fireinio medrau penodol mewn darn penodol o waith. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu nodau gwersi a meini prawf llwyddiant yn gyson gyda disgyblion ac mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n effeithiol. Mae'r broses o osod targedau ar gyfer y disgyblion wedi'i gwreiddio ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safon eu gwaith. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddir y data'n ofalus i fonitro'u cynnydd, cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu ac i ddarparu rhaglenni addysgol ychwanegol yn ôl yr angen. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr a chynhwysfawr ar gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau addas er mwyn gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, hapus a chyfeillgar. Mae'r naws deuluol sy'n bodoli yn cael effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad y disgyblion. Caiff y disgyblion gyfleoedd niferus i gadw'n heini drwy gymryd rhan mewn sesiynau ffitrwydd, rygbi a gwersi nofio rheolaidd. Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos gofalgar sy'n bodoli. Mae'r gwasanaethau yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol ac mae ymweliadau â mannau fel Coleg y Bala a chymryd rhan mewn prosiectau cyffrous fel dathlu priodas yn ategu'n fuddiol at wybodaeth a datblygiad ysbrydol y disgyblion. Mae'r disgyblion, ynghyd â'r rhieni a'r gymuned ehangach, wedi cynnal taith gerdded i gyllido offer meddygol ar gyfer ysgolion a chaffis lleol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o fyw mewn cymuned.

Mae'r staff yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar iawn ac yn darparu'n effeithiol ar eu cyfer. Defnyddir cynlluniau addysg unigol i sicrhau bod bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion a rhieni yn rhan o'r broses o osod ac adolygu targedau. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cefnogol gyda nifer o wasanaethau arbenigol sy'n sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion, staff a rhieni. Enghraifft dda o hyn yw'r hyfforddiant staff pwrpasol y mae'r ysgol wedi'i drefnu er mwyn cefnogi anghenion lleferydd disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i wella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld eu heffaith hyd yma. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a gofalgar sydd ag ethos cynhwysol a chefnogol iawn. Mae'r ysgol yn trin pob disgybl yn gyfartal ym mhob agwedd o'i gweithgareddau. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth.

Defnyddir neuadd y pentref i gynnal gweithgareddau addysg gorfforol sy'n ehangu profiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae ystod amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae mwyafrif o arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu a dathlu gwaith disgyblion yn effeithiol. Ceir rhai arddangosfeydd cyfoes sy'n hyrwyddo medrau celf y disgyblion yn effeithiol, er enghraifft y gwaith sy'n efelychu gwaith yr artist Ruth Jên a Picasso. Mae'r esiamplau hyn yn rhoi bri ar eu gwaith yn effeithiol. Mae'r ardal allanol wedi ei datblygu ers yr arolygiad diwethaf. Datblygwyd 'tŷ dan goeden' i gynnal gweithgareddau dysgu allanol. Fodd bynnag, nid oes defnydd cyson a phwrpasol ohono i sicrhau bod y profiadau dysgu mor ysgogol ag y gallant fod i'r disgyblion. Mae bron pob disgybl yn mynychu gweithgareddau allgyrsiol fel gweithgareddau rygbi ac adran yr Urdd. Mae hyn yn datblygu eu medrau corfforol a chymdeithasol yn dda.

Er bod yr adeilad a safle'r ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n lân a thaclus, tynnwyd sylw'r corff llywodraethol at un mater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth â gofal, gyda chefnogaeth a chyfraniad medrus y llywodraethwyr, wedi dechrau gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer datblygiad yr ysgol. O fewn amser byr, mae wedi rhoi strategaethau cadarn ar waith ac mae wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio fel tîm ymysg staff. Mae wedi dechrau gosod rhai prosesau cadarn yn eu lle yn seiliedig ar godi safonau ac maent wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen a mathemateg pen y disgyblion, er enghraifft.

Mae gan y pennaeth nodau clir i gynnwys yr holl randdeiliaid ym mhrosesau'r ysgol, hybu lles disgyblion a chydweithio'n agos â rhieni. Mae'r gweithlu yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ac i fonitro cynnydd ym mlaenoriaethau'r ysgol. Mae disgrifiadau swyddi cyfredol yn eu lle, ac yn adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau'r staff yn briodol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo dysgu proffesiynol y staff yn llwyddiannus ac mae'n cyfrannu at rai gwelliannau yn y dysgu a'r addysgu. Fodd bynnag, nid yw rolau arweinwyr ar bob lefel wedi datblygu'n effeithiol hyd yma.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i’r ysgol. Mae eu cyfraniad gwerthfawr yn cael effaith lwyddiannus ar ddatblygiad yr ysgol i’r dyfodol drwy sicrhau cefnogaeth a mentora effeithiol i’r pennaeth â gofal. Mae ganddynt ddealltwriaeth dreiddgar o berfformiad yr ysgol ynghyd â gwybodaeth fanwl iawn am safonau a lles y disgyblion. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae’r arfer hon wedi galluogi’r corff llywodraethol i gefnogi a dechrau herio safonau. Defnyddia aelodau’r corff llywodraethol eu harbenigedd yn effeithiol i gefnogi’r ysgol wrth gefnogi materion addysgu, darpariaeth a chyllid, er enghraifft. Yn ddiweddar, mae’r corff llywodraethol yn gweithredu’n strategol wrth dargedu sefydlogrwydd arweinyddol i’r ysgol.

Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy’n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae ganddi drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion mwy bregus. Fodd bynnag, mae’r arweinyddiaeth wedi bod yn rhy araf i sicrhau bod holl egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu’n briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau a'r mwyafrif o feysydd sydd angen eu gwella. Mae’r prosesau hunanarfarnu yn ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol ac mae’r pennaeth â gofal yn adnabod y mwyafrif o anghenion yr ysgol yn dda. Mae’r atodiadau diweddar i’r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun cytbwys a chywir o’r ysgol. Mae’r blaenoriaethau yn sgil hunanarfarnu yn sicrhau ffocws clir i’r ysgol ac, mewn cyfnod byr, mae’r rhain wedi arwain at welliannau gweladwy, er enghraifft mewn safonau darllen a rhifedd.

Mae’r cynllun datblygu yn fanwl ac yn nodi camau gweithredu perthnasol sy’n cynnwys meini prawf llwyddiant sy’n canolbwyntio’n briodol ar ddarpariaeth a deilliannau. Mae’r pennaeth â gofal yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth athrawon o’r meysydd sydd angen eu datblygu ac maent yn dechrau ymateb i’w cyfrifoldebau gweithredu yn gydwybodol. Mae’r cynllun wedi ei gostio’n briodol ac mae’r amserlen weithredu a chyfrifoldeb staff yn glir. Mae blaenoriaethau’r ysgol yn dylanwadu’n gadarnhaol ar gynllun hyfforddiant addas yn sgil gosod targedau rheoli perfformiad ar gyfer pob aelod o staff. Mae hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar gyflwyno strategaethau addysgu a chefnogaeth i grwpiau penodol o ddisgyblion yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau effeithiol sy’n cefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae perthynas gref yn bodoli rhwng yr ysgol â rhieni, sy’n cyfrannu’n dda at y ddarpariaeth ac ar les disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniad y rhieni at weithgareddau garddio a’r hyfforddiant rygbi. Mae’r rhieni yn codi arian sylweddol ac yn hyrwyddo’r ysgol yn y gymuned, ynghyd â manteisio ar gysylltiadau defnyddiol â nifer o gwmnïau a sefydliadau lleol. Mae hyn yn galluogi’r ysgol i gynnal ymweliadau pwrpasol sy’n dylanwadu’n gadarnhaol ar brofiadau disgyblion.

Mae’r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw yn y gymuned leol, ac mae’r disgyblion yn cyfrannu’n gyson mewn gweithgareddau lleol. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn gweithio’n agos gyda gwylwyr y glannau i gefnogi eu gweithgareddau elusennol. Trwy wneud hyn, mae ganddynt gwell ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y dŵr.

Gweithia'r ysgol yn agos gydag ysgolion lleol er budd ei disgyblion. Mae trefniadau pontio addas yn bodoli gyda'r ysgol gyfagos sy'n sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio gyda phenaethiaid eraill ar godi safonau ac ar gefnogaeth arweinyddiaeth. Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn gyda swyddogion yr awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae'r ysgol yn safoni gwaith yn fewnol gyda swyddog o'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb deilliannau. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau amrywiol yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol i wella safonau disgyblion a chefnogi arweinyddiaeth yn llwyddiannus.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd priodol o'u harbenigedd ac mae cyfraniad buddiol y staff cynorthwyol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ynglŷn â baich gwaith athrawon, ac mae'r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn bwrpasol at ddatblygiad staff gyda thargedau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion. Fodd bynnag, nid yw prosesau monitro wedi cael amser i sicrhau bod cyflawniad targedau a gweithredu gwelliant wedi datblygu'n llawn.

Mae amrediad da o adnoddau safonol yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n bwrpasol i sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion i bob agwedd o'r cwricwlwm.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol fuddiol yn bodoli rhwng yr ysgol ac ysgolion cynradd y clwstwr sy'n datblygu agweddau o asesu ar gyfer dysgu a chynllunio. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth.

Mae'r arweinwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac, o ganlyniad, maent wedi llwyddo i ddiddymu'r gorwariant blaenorol. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Gwneir defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dargedu disgyblion, er enghraifft drwy ddarparu rhaglenni ymyrraeth perthnasol iddynt. Mae'r disgyblion sy'n elwa o'r rhaglenni hyn yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda tuag at eu targedau. O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon.  Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 14 | 10 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 14 | 12 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 14 | 10 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 14 | 10 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 14 | 10 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 14 | 5 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 36% | 50% | 7% | 0% | | |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 14 | 9 | 4 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 64% | 29% | 7% | 0% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 14 | 12 | 1 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 86% | 7% | 0% | 7% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 6 | 6 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 46% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 14 | 10 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 4 | 8 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 29% | 57% | 0% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 14 | 8 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 57% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Vanessa Bowen | Arolygydd Cofnodol |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Annwen Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Linda Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.